

Teitl y Swydd: Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Digidol
Graddfa: i'w gadarnhau

Pwrpas cyffredinol y Swydd

Bydd yr *Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Digidol* yn meddu ar lefelau sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a fydd yn gallu cynnig atebion cyflym a phendant i broblemau ac yn mynnu safonau uchel ymhob agwedd ar ei (g)waith.

Disgwylir i'r *Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Digidol* weithio o fewn cyd-destun gwerthoedd a nodau hir dymor strategol y gwasanaeth, ynghyd â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Ymgynghorwyr er mwyn:

- sicrhau bod pob ysgol yn deall ac yn cyflawni ei dyletswyddau;
- cynnig cefnogaeth briodol i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo gwelliant drwy gasglu, dadansoddi a hysbysu a rhoi tystiolaeth ynghylch data;
- sicrhau bod gweithredu yn cefnogi gwelliant ysgol gyfan ac yn mynd i'r afael â lleihau amrywiaethau mewn perfformiad, oddi fewn, ac ar draws ysgolion ac awdurdod;
- adnabod a chytuno ar strategaethau ac ymyraethau i gefnogi gwelliant trwy'r ysgol gyfan;
- sicrhau bod gweithredu effeithiol yn digwydd wrth fonitro a herio gwaith digidol ysgolion er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu cyfeirio i sicrhau y caiff ddisgyblion well canlyniadau;
- darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd o fewn y maes digidol.
- sicrhau y caiff pob ysgol/awdurdod arweiniad a chefnogaeth effeithiol ar weithgareddau cyn ac ôl-arolygiad parthed y maes digidol;
- sicrhau bod mesurau priodol i alluogi Llywodraethwyr ysgol i fod â swyddogaeth heriol gref briodol;
- cyfrannu'n uniongyrchol, neu drwy gefnogaeth a gaiff ei chomisiynu fel y bo'n briodol, i ddatrys materion ysgol penodol sy'n gysylltiedig â materion digidol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Penodol

Bydd dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol yr *Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Digidol* yn ymwneud â chynnig cefnogaeth a gosod her broffesiynol ym meysydd:

1. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Arwain a gosod cyfeiriad strategol ar draws y rhanbarth yng nghyd-destun y maes Digidol.
- Datblygu a gweithredu Cynllun Busnes rhanbarthol o fewn y maes Digidol.
- Cydlynu gweithrediad a chyflawniad y cynllun gweithredu/busnes ar draws y rhanbarth
- Gweithredu fel pwynt cyswllt yn y rhanbarth ar gyfer rhannu ymarfer da yn y maes
- Cefnogi a rhoi arweiniad i ysgol ac awdurdod er mwyn sicrhau y caiff ei gweledigaeth, ei hethos a'i phwrpas moesol eu cyd-rannu gan yr holl staff a rhai sydd â diddordeb yn hyn.
- Cefnogi a gosod her i ysgol/awdurdod wella'r arfer o hunan-arfarnu effeithiol a chynllunio gwella.
- Cydlynu gweithrediad a chyflawniad y cynllun gweithredu/busnes ar draws y rhanbarth.
- Dadansoddi a defnyddio data i farnu perfformiad a herio'r ysgol/awdurdod i osod targedau uchelgeisiol ond realistig.
- Rhoi adborth positif y gellir seilio gwelliannau i'r dyfodol arno.
- Gweithredu fel Cydlynnydd Arweiniol Digidol ar draws y rhanbarth.
- Gweithredu fel prif gyswllt Digidol y rhanbarth gyda Llywodraeth Cymru parthed strategaeth digidol ynghyd a darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ac ysgolion ar draws y rhanbarth.
- Cydlynu ac arwain strategaeth Digidol y rhanbarth ac darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

- Rheoli'r cyllidebau digidol sydd wedi'i ddyrannu i'r consortia addysg gan Lywodraeth Cymru.
 - Cydweithio yn agos gyda Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i osod heriau parthed y maes digidol.
 - Datblygu cynlluniau prosiect ac achosion busnes ar gyfer targedu arian digidol ar ran y rhanbarth
2. ***Dysgu ac Addysgu yn y Dosbarth (Addysgeg)***, trwy
 - Cydweithio gyda Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ac awdurdod i roi cefnogaeth a chynghor ar ddulliau dysgu, addysgu a sgiliau yng nghyd destun digidol.
 - Nodi arferion dysgu ac addysgu effeithiol o fewn y maes digidol y gellir eu cyd-rannu o fewn, ac ar draws rhwydweithiau.
 3. ***Cydlynu Cefnogaeth Gwricwlwm***, trwy
 - Osod her a chefnogaeth strategol i strategaethau Datblygu Polisi, Dysgu ac Addysgu a datblygu'r cwricwlwm (yn cynnwys o fewn meysydd pwnc penodol).
 - Naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gyfrwng cefnogaeth wedi ei chomisiynu fel sy'n briodol, cyfrannu tuag at ddatrys materion penodol sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â phwnc/cwricwlwm.
 4. ***Datblygu Pobl a'r Sefydliad***, trwy gychwyn a chefnogi ymchwil gweithredol i arfer effeithiol gan roi cynghor ac arweiniad ynghylch gweithdrefnau ac arfer, arfarnu effeithiolrwydd DPP ac effaith rhwydweithiau ar arfer broffesiynol.
 5. ***Cefnogi Datblygiad Agweddau Disgyblion***, trwy roi arweiniad ar hyrwyddo ethos gynhwysol a rhoi cymaint o gyfleoedd ag y bo modd i blant a phobl ifanc elwa o gysylltiadau ag asiantaethau eraill.
 6. ***Hyrwyddo Atebolrwydd Mewnol***, trwy ddarparu canllawiau, cefnogaeth ac arfarnu trwy ddatblygu meini prawf sy'n ysgogi gweithdrefnau ymyrraeth o fewn yr ysgol gyfan, adrannau ac yn y dosbarth.
 7. ***Hyrwyddo cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion er mwyn gweithredu arfer dda a rhagorol trwy hyrwyddo'r cysyniad o sefydliad sydd yn dysgu.***
 8. ***Adnabod arfer dda a rhagorol i'w rhannu ar draws ysgolion.***
 9. ***Cyfrannu tuag at Ysgol GwE.***

Bydd rhai Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a chyswllt ysgol yn unig gydag eraill yn ddeilyddion portffolio yn arwain ar agwedd benodol megis:

- Cwricwlwm
- Asesu
- Datblygu Arweinyddiaeth
- Cynhwysedd Digidol
- Dysgu ac Addysgu
- Ysgol GwE
- Lles / Grant Amddifadedd Disgyblion / Plant Mewn Gofal
- Anghenion Dysgu Ychwanegol/ Cynhwysiad
- Addysg Gychwynnol Athrawon
- Gwerthuso ac ymchwil
- Ffitrwydd ac iechyd
- Y Fagloriaeth Gymreig
- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg

- Gwyddoniaeth
- Llythrennedd
- Rhifedd
- Dyfodol Llwyddiannus
- Arwain Methodoleg Bynciol

Bydd nifer o ysgolion cyswllt y deilyddion portffolio yn amrywio yn sylweddol, ac yn ddibynnol ar ofynion y rôl. Bydd hyn i'w gytuno gyda'r Rheolwr Llinell.

Isafswm disgwyliadau ar gyfer y swydd

Bydd yr *Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant* yn arddel yr isafswm disgwyliadau a nod y gwasanaeth er mwyn sicrhau:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn ein hysgolion;
- Addysgu da ar draws ysgolion y rhanbarth;
- Gwaredu amrywiaeth o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod yng nghategoriâu statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf, ym mhob ysgol;
- Dyfodol Llwyddiannus yn ei le ym mhob ysgol.

Gwerthoedd personol ac ar gyfer y gwasanaeth

Bydd yr *Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant* yn arddel y gwerthoedd canlynol:

- Ymddiriedaeth;
- Didueddrwydd;
- Tegwch;
- Parchu amrywiaeth;
- Yn gefnogol a chydweithredol;
- Dwyieithrwydd;
- Gwrthrychedd;
- Yn mynnu safon uchel;
- Gonestrwydd.

Sut mae'r rôl *Deilydd Portffolio* yn mynd i gael ei harwain?

Bydd angen:

- Adnabod blaenoriaethau a mesurau gwelliant oddi fewn i'r maes;
- Arwain grŵp o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ac /neu arweinwyr mewn ysgolion i gynllunio rhaglen ddatblygol i fynd i'r afael ag agweddau penodol sydd i'w gwella;
- Adnabod ag asesu strategaethau ar gyfer gwella safonau cyflawniad, lles, dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth sy'n cyfrannu i weledigaeth, amcanion a gwerthoedd GwE;
- Cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol gydag ystod o bartneriad;
- Adnabod adnoddau i ddiwallu'r anghenion;
- Rheoli cyllideb flynyddol a monitro'r gwariant;
- Llunio cynlluniau busnes a gweithredu fydd yn cefnogi amcanion a chynlluniau busnes lefel uchel y gwasanaeth;
- Sicrhau fod unrhyw ymyriadau ag adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol a llwyddiannus i fynd i'r afael â phroblemau;
- Monitro a gwerthuso effaith;
- Adnabod arferion rhagorol a da i'w rhannu.

Unrhyw agweddau eraill sy'n benodol i'r portffolio i'w gwblhau gan ddeilydd y swydd a'i gytuno gyda'r Rheolwr Llinell:

Ffactorau Ychwanegol

- Gall natur y gwaith olygu bod deilydd y swydd yn cyflawni gwaith tu allan i oriau gwaith arferol.
- Efallai bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd fynychu, o dro i dro, cyrsiau hyfforddi, cynadleddau, seminarau neu gyfarfodydd eraill fel bo angen, yn unol â'i anghenion hyfforddiant ef neu hi ac anghenion y Gwasanaeth.
- Telir treuliau yn unol ag amodau lleol gwasanaeth.
- Bydd y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynnal archwiliad Estynedig ar Ddeilydd y Swydd i ganfod a gyflawnwyd unrhyw drosedd flaenorol.

D.S. Mae'r swydd ddisgrifiad yn amlinellu dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd pan luniwyd. Gall y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau newid o dro i dro, ond ni fydd newid yn natur gyffredinol y dyletswyddau nac yn lefel y cyfrifoldeb. Mae newid o'r fath yn beth cyffredin ac ni ellir cyfiawnhau ail-raddio'r swydd.